# Canllawiau

## Pam Gwobrau Arfer Da?

Mae'r Gwobrau Cenedlaethol Arfer Da blynyddol yn rhoi cyfle i ni gydnabod gwaith tenantiaid, preswylwyr, gwirfoddolwyr cymunedol asefydliadau tai cymdeithasol ledled Cymru. landlordiaid a thenantiaid yn ei wneud. Dengys fod y gwaith yn fuddiol i roi cynnig ar weithgareddau ac arferion sydd wir yn gweithio! Mae'r digwyddiad hefyd yn caniatáu i TPAS Cymru gyhoeddi a rhannu arferion da, y dysg a'r profiadau.

## Rhannu Arfer Da

Mae casglu'r enwebiadau a'r digwyddiad ei hun yn ein galluogi i nodi a rhannu arfer da, dysgu a phrofiadau o bob cwr o Gymru. Yn dilyn y digwyddiad gwobrwyo, byddwn yn cynhyrchu adroddiad dwyieithog yn arddangos y ceisiadau buddugol yn fanylach. Bydd yr adroddiad addysgiadol hwn ar gael, i'w lawrlwytho am ddim ar ein gwefan, a'i rannu ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

## Beth yw Categorïau'r Gwobrau?

Eleni, mae gennym ystod wych o gategorïau gan gynnwys rhai newydd sbon. Am fanylion llawn a'r meini prawf, gweler y canllawiau ar gyfer pob categori ar y ffurflenni enwebu unigol.

## Pwy all wneud cais?

Mae'r gwobrau yn RHAD AC AM DDIM i gyflwyno cais.

Mae'r gystadleuaeth ar agor i Denantiaid a Phreswylwyr, Landlordiaid Cymdeithasol, a Darparwyr Tai â Chymorth a sefydliadau cymorth/contractwyr **sydd yn <u>aelodau</u> o TPAS Cymru ar adeg cyflwyno'r enwebiad.**

## Rhowch gynnig arni!

Mae croeso i chi ailgyflwyno prosiect sydd wedi cael ei ystyried mewn blynyddoedd blaenorol. Cofiwch y dylid diweddaru enwebiadau sydd wedi cael eu cyflwyno mewn blynyddoedd blaenorol ac adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y meini prawf asesu.

## Yma i helpu!

Er ein bod wedi ceisio gwneud y broses enwebu mor syml â phosibl, rydym yn cydnabod y gall gwneud enwebiad am wobr fod yn dasg heriol. Gofynnwch os ydych yn ansicr o unrhyw beth. Hefyd, chwiliwch am fanylion ein sesiynau 30 munud amser cinio anffurfiol ond defnyddiol iawn pan fyddwn yn rhoi rhai Awgrymiadau Gorau i chi ar sut i wneud eich enwebiad y gorau y gall fod. [www.tpas.cymru/digwyddiadau](www.tpas.cymru/digwyddiadau).

# Amodau ymgeisio



- **Rhaid derbyn enwebiadau erbyn canol dydd, 22 Ebril 2026. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried.**
- Dim ond ceisiadau sy'n cynnwys y wybodaeth ofynnol ar y ffurflen enwebu ac yn y canllaw hwn fydd yn cael eu hystyried.
- Delir ag unrhyw wrthdaro buddiannau neu feirniadaeth cyfartal yn ystod y beirniadu. Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol.
- Bydd yr holl geisiadau yn cael eu barnu ar yr wybodaeth a ddarperir ar adeg ymgeisio a ni dderbynnir unrhyw ohebiaeth ddilynol tuag ato.
- Trwy gystadlu yn y Gwobrau, rydych yn cytuno i unrhyw wybodaeth a/neu ddelweddau a roddwyd i'w cael eu defnyddio ar gyfer deunydd cyhoeddusrwydd.
- Bydd yr enw y rhoddwch ar eich cais a'r enw y defnyddir gennych ar gyfer eich sefydliad yn penderfynu sut yr enwir eich cais yn yr holl ddeunydd hyrwyddo.

# Awgrymiadau ar gyfer ymgeisio

- Os credwch fod eich enwebiad yn cyd-fynd â mwy nag un categori, gallwch gynyddu eich siawns o gael eich rhoi ar y rhestr fer trwy ei gyflwyno mewn catgorïau eraill, ond cofiwch sicrhau bod yr enwebiad yn adlewyrchu'r meini prawf asesu.
- Peidiwch â chyfrif eich hun allan – nid oes rhaid i chi fodloni pob maen prawf o reidrwydd, bydd y ceisiadau'n seiliedig ar gryfder y wybodaeth a gyflwynir yn yr enwebiad.
- Meddyliwch 'felly beth?' – mae dweud wrthym sut rydych wedi gwneud rhywbeth yn bwysig, ond mae dweud wrthym pam ei fod yn bwysig neu pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud neu y bydd yn ei wneud yn bwysigSicrhewch fod eich cais yn gryno a chyda ffocws pendant.
- Eglurwch eich cais trwy esiamplau, tystebau ac adborth gan eraill.
- Cyfeiriwch at y meini prawf ar gyfer pob gwobr o ran yr hyn y bydd y beirniaid yn ei ystyried a chwblhewch y ffurlen enwebu swyddogol o dan y penawdau penodol hyn.

# Rydym yma i helpu!

**Cofiwch y cewch ofyn cymorth gan staff TPAS Cymru: gallwn eich cynghori ynglŷn â'r meini prawf; llenwi'r ffurflen enwebu; a pa wybodaeth gefnogol y gallwch ei gynnwys. Fodd bynnag, ni allwn eich cynorthwyo'n uniongyrchol wrth gwblhau eich enwebiad.**

# Proses enwebu: 3 Cam Syml

Rydym fel arfer yn derbyn amryw o enwebiadau: felly i gynorthwyo'r beirniaid i wneud eu penderfyniad, a wnewch chi sicrhau fod y wybodaeth yn eich enwebiad mor eglur â phosib ac yn cynnwys y canlynol:

## 1. Ffurflen Enwebu Berthnasol wedi ei Chwblhau a Llun

Sicrhewch fod eich cais yn cael ei gyflwyno trwy lenwi'r ffurflen enwebu bertnasol gan ddefnyddio'r penawdau a nodwyd. Y penawdau yw'r meini prawf y bydd y beirniaid yn eu defnyddio. Mae hwn mewn fformat 'Word' i'ch galluogi i deipio faint bynnag o destun yr ydych yn ei ddymuno. Mae angen o leiaf un llun/delwedd/logo ar gyfer y cyflwyniad a ddefnyddir yn y Seremoni Wobrwyo.

## 2. Yr opsiwn i gynnwys Gwybodaeth Ategol

Gellir cynnwys gwybodaeth dystiolaethol I roi mwy o fanylion am eich enwebiad a all, er enghraifft, gynnwys unrhyw rai o'r canlynol:

- Dyfyniadau / sylwadau / adborth gan denantiaid / preswylwyr / cynrychiolwyr cymunedau
- Dyfyniadau / sylwadau gan sefydliadau eraill
- Dolenni i wefannau / cymorth / erthyglau cyfryngau cymdeithasol ac ati
- Tystiolaeth o'r effaith y mae'r gweithgaredd/prosiect wedi ei gael ar y gymuned leol / gwasanaethau
- Esiamplau o gyhoeddiadau, newyddlenni, llawlyfrau, ayb
- Tystiolaeth y bydd yr effaith yn parhau
- Ffotograffau a / neu fideos

## 3. Llun

E-bostiwch eich enwebiad wedi'i gwblhau i'r e-bost a nodir ar y ffurflen enwebu. Ar ôl derbyn eich enwebiad byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais. <u>Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â ni o fewn 24 awr os nad ydych wedi cael y cadarnhad hwn gennym.</u>

**Noder: Mae gan TPAS Cymru'r hawl i roi ceisiadau mewn categori gwahanol os yr ystyrir fod y cais yn cyfarfod meini prawf un o'r gwobrau eraill yn fwy effeithiol.**

# Cwestiynnau Cyffredin



## A yw'n costio i gyflwyno cais?

**Nid yw'n costio** i gyflwyno cais i Wobrau Arfer Da TPAS Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi fod yn aelod o TPAS Cymru ar adeg cyflwyno'r enwebiad i gymryd rhan, ac mae'r seremoni wobrwyo ei hun yn ddigwyddiad tocyn ac mae yna gost i'w fynychu.

## A ellir cyflwyno cais trwy'r post?

Yn anffodus, na. Gan ein bod yn gweithio o adref y rhan fwyaf o'r amser, dim ond trwy e-bost y gallwn dderbyn enwebiadau. I osgoi cymhlethdodau wrth anfon enwebiad electronig, fe'ch cynghorir i gadw maint y ffeil mor fach â phosib h.y. cyfyngu nifer y lluniau/graffig neu eu cywasgu, creu ffeil zip, neu anfon trwy via *WeTransfer/Dropbox*.

## A ellir cyflwyno cais ar y cyd â sefydliad partneriaeth?

Gellir, fodd bynnag mae'n rhaid i'r partner arweiniol fod yn aelod o TPAS Cymru.

## A ellir ailgyflwyno cais sydd wedi cael ei ystyried yn y gorffennol?

Gellir, fodd bynnag dim ond os oes symudiad ymlaen neu newidiadau arwyddocaol yn y prosiect y dylid ailgyflwyno ceisiadau sydd wedi cael eu hystyried gan y beirniaid yn y gorffennol.

## A ellir rhoi rhagor o wybodaeth, yn ogystal â chwblhau ffurflen enwebu safonol, i gefnogi fy nghais?

Gellir, cewch gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eich cais megis lluniau, gwybodaeth y wasg, dolenni gwefan. <u>Noder:</u> Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gallem ddefnyddio'r wybodaeth neu luniau a gyflwynwyd fel rhan o'ch cais ar gyfer ein deunyddiau marchnata ni. Trwy gymryd rhan yn y gwobrau, rydych yn cytuno i hyn.

## A oes cyfyngiad i'r nifer o geisiadau y gallaf eu cyflwyno?

Na. Fe wnawn dderbyn mwy nag un cais o'r un sefydliad.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gyflwyno fy nghais?

Wedi derbyn eich enwebiad, byddwn yn cysylltu â chi trwy e-bost i gadarnhau ein bod wedi ei dderbyn. <u>Mae'n hollbwysig eich bod yn cysylltu â ni o fewn 24 awr os and ydych wedi derbyn cadarnhad gennym</u>. Ar ôl y broses o feirniadu, fe wnawn gyhoeddi rhestr fer o'r rownd derfynol ar gyfer pob un o'r categorïau ac fe'ch hysbysir os ydych wedi bod yn llwyddiannus.

**Noddir y digwyddiad hwn gan:** Tai Wales & West Housing